**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr**
**a gynhaliwyd nos Lun 18 Mai 2026 am 7.00pm**
**yn Neuadd Goffa Tal-y-bont**

1. **Croeso'r Cadeirydd**
   **Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Nia Richards, Siôn Pennant Jones, Bleddyn Huws, Catrin Davies (Cynghorydd Sir), Enoc Jenkins (is-gadeirydd), Mererid Watson (o bell), Elgan Evans, Nest Jenkins a Rhian Evans

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod Blynyddol.

2. **Ymddiheuriadau**.
   Y Cyng. Eryl Bray

3. **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf**
   Roedd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf, a gynhaliwyd ar 19 Mai 2025, wedi cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod mis Mehefin 2025.

4. **Adroddiadau Blynyddol**
   i) Adroddiad y Cadeirydd – cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad fel a ganlyn:

   *Roedd 2025-26 yn flwyddyn brysur unwaith eto.*

   *Derbyniwyd adroddiad cadarnhaol ar adroddiad ariannol 2024-25 oddi wrth ein Harchwilydd Mewnol Mr Bryn Smith, a chadarnhawyd hynny gan Archwilio Cymru. Gosodwyd Cyllideb ar gyfer 2026-27 gan osod praesept o £20,000 am y flwyddyn.*

   *Lluniwyd ffurflen gais a chanllawiau newydd ar gyfer y grantiau cymunedol. Cytunwyd i ddosrannu grantiau Adran 137 hyd at werth £4,100 i fudiadau cymunedol ac i HAHAV, Ambiwlans Awyr Cymru ac Urdd Gobaith Cymru.*

   *Parhawyd i godi materion ynglŷn a'r hewlydd yn y gymuned gyda'r Cyngor Sir. Cafodd rhai ohonynt sylw ac mae eraill yn dal i aros.*

   *Ar ddiwrnod poeth o Fehefin, ar y cyd a Chyngor Cymuned Llangynfelyn, cynhaliwyd seremoni gyda plant Ysgol Gymunedol Tal-y-bont i agor Llwybr Mai. Llwybr y bu trafod a threfnu hir yn ei chylch wedi cais gan y diweddar Gynghorydd Mai Leeding i gael llwybr diogel i gysylltu'r cymunedau. Enwyd y llwybr er cof am Mai. Rydym yn ddyledus iawn i Eifion Jones, Swyddog Mynediad y Cyngor Sir, am sicrhau'r grant i wireddu'r gwaith. Mae'r llwybr bellach yn boblogaidd iawn gan y pentrefwyr.*

   *Yn dilyn llawer o anesmwythyd ymhlith y gymuned ynghylch y Cynllun Llifogydd diweddaraf, llwyddwyd i drefnu cyfarfod efo Rhodri Llwyd, Cyfarwyddwr Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, i drafod ymhellach. Mae'n debyg bod Tal-y-bont yn ddim ond chweched ar restr y Cyngor Sir o gynlluniau sy'n disgwyl buddsoddiad oddi wrth Lywodraeth Cymru. Rydym yn dal i aros am newyddion pellach.*

   *Cynhaliwyd cyfarfod â cynrychiolwyr Bute Energy, sydd wedi cyflwyno cynllun i godi Fferm Wynt arall ym mhen uchaf Cwm Ceulan a draw am Nant y Moch. Nodwyd sawl mater oedd yn peri pryder i'r Cyngor. Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd Pwyllgor Ymgynghorol i drafod sefydlu Cronfa Cymunedol ynghlwm wrth y cynllun. Bu'r Cynghorydd Sir Catrin M.S. Davies a'r Cynghorydd Cymuned Siôn Pennant yn mynychu cyfarfodydd ar ein rhan.*

   *Derbyniwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth oddi wrth y Cyngor Sir ar gyfer cynnal a chadw'r toiledau cyhoeddus yn y pentre. Penderfynwyd peidio â'i arwyddo gan dynnu sylw'r Cyngor unwaith eto at y ffaith fod y Cytundeb rhwng y ddau gyngor yn dal yn weithredol ac nad oes cymal torri i'w gael ynddo.*

   *Cynhaliwyd sawl achlysur megis Bingo, Helfa Drysor a Clwb 200 i ychwanegu ymhellach at gronfa'r Cae Bach. Gwnaed cais llwyddianus i Gronfa'r Cyngor Sir a derbyniwyd £12,000 i brynu peth offer ymlaen llaw. Lluniwyd Siarter Chwarae i'w gynnwys yn y ceisiadau. Rydym yn ddyledus unwaith eto i bawb a fu'n cyfrannu at y gweithgareddau ac yn eu noddi yn ystod y flwyddyn. Y cam pwysicaf ymlaen oedd cyflwyno'r cais i'r Loteri Genedlaethol am £98 mil diolch i waith diwyd y Cyng Catrin M.S. Davies.*

*Parhawyd â'r gwaith o oruchwylio cyflwr cyfredol y Cae Bach a Chae Chwarae Bont-goch. Bu'n rhaid gwneud peth tocio ychwanegol a thrwsio'r ffens yn Bont-goch wedi i goeden gwmpo mewn storm. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar i Rachel Mills am ei gwaith yn difa Clymog Japan yn y Cae Bach*

*Cafodd y gwaith a wnaed i wella'r fynwent ei werthfawrogi gan y gymuned. Gobeithir parhau â'r gwaith o wella cyflwr y ffens wedi i'r grant i dalu am y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud ddod i law. Cytunwyd i gynyddu a symleiddio costau'r fynwent ymhellach gan hefyd nodi ardal i fod yn Ardd Goffa lle gellid gosod cerrig coffa neu gladdu llwch yr ymadawedig.*

*Derbyniwyd cais gan y Methodistiaid Calfinaidd i'r Cyngor gymryd gofal o Fynwent Capel Nazareth, sydd bellach wedi ei werthu fel tŷ annedd. Cytunwyd mewn egwyddor, ond nid yw'r Cyngor eto yn hapus â'r setliad ariannol a gynigiwyd i dalu am waith cynnal a chadw yn y dyfodol.*

*Parhawyd i gynnal a chadw'r ddiffibrilwyr, a symudwyd un o'r tri yn y pentre i'r hen giosg ffôn wrth Penpontbren Geifr.*

*Bu i'r Cynghorwyr Nest Jenkins a Nia Richards gynrychioli'r Cyngor yng Ngwasanaeth Sul y Cofio. Codwyd coeden Nadolig hyfryd ar y Patshyn Glas unwaith eto diolch i'r Cyng Enoc Jenkins, a daeth sawl un ynghyd i weld seremoni cynnau'r goleuadau ac i glywed carolau gan blant yr Ysgol dan arweiniad y Prifathro.*
*Cymerwyd rhan yn y Gwasnaeth Nadolig Cymunedol gan y Cyng Eryl Bray.*
*Cynhaliwyd y Cwtsh Cynnes yn ngwaelod y Neuadd eto eleni a bu'n llwyddiant mawr, fel bu'r Cinio Nadolig gyda bron 30 yn mynychu. Derbyniwyd grant o £1,000 eto eleni tuag at y costau. Rydym yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr sydd yn cynorthwyo bob bore Mawrth.*
*Unwaith eto ar ddiwedd blwyddyn brysur, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Lynwen Jones y Clerc gweithgar am ei gwaith diwyd bob amser. Llawer o ddiolch i chithau, fy nghyd-gynghorwyr, am fy nghefnogi am flwyddyn arall ac am y gwaith rydych yn ei wneud dros y gymuned sydd mor agos at ein calonnau.*

*Ellen ap Gwynn – Cadeirydd 2025-26*

ii) Adroddiad Adran 6 – cyflwynodd y Cyng. Nia Richards ei hadroddiad fel a ganlyn:

*Yn unol a'r gofynion, mae Adran 6 yn eitem ar agenda pob cyfarfod misol y cyngor, gyda'r cynghorwyr sydd wedi eu penodi i arwain ar y maes hwn yn darparu diweddariad byr. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth Adran 6 i bob cais cynllunio a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar ein safle wê yn yr Hydref a hefyd ei anfon at Un Llais Cymru yn dilyn y cyfarfod blynyddol.*

*Yn nhrafodaethau y Gyllideb, cytunwyd eto i noddi dosbarth yn Sioe Talybont wrth roi gwobr o £20 i'r adran Gardd Orau i Fywyd Gwyllt. Gofynnwyd i bob cymdeithas neu glwb a oedd yn gwneud cais am grant ar ddechrau'r flwyddyn i nodi a fyddai'r arian o fudd i'r amgylchedd. Er nad oedd unrhyw fuddion uniongyrchol wedi'u cynnwys yn unrhyw gais, mae Cymdeithas Cae'r Odyn Galch yn fodlon cydweithio â'r cyngor ar ffyrdd o wella bioamrywiaeth o amgylch safle'r cae pêl-droed, ac mae Clwb Pysgota Tal-y-bont yn gwarchod ansawdd dŵr y llynnoedd.*

*Fe dreuliodd sawl cynghorydd fore gyda Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont yn clirio gwastraff gardd o Afon Ceulan. Nid yn unig y mae dympio o'r fath yn cynyddu'r risg o lifogydd, mae hefyd yn lledaenu rhywogaethau estron i'r amgylchedd, a gall gael effaith negyddol ar bysgod a bywyd gwyllt.*

*Mynychwyd diwrnod hyfforddiant ar sut i adnabod a chofrestru coed hynafol a nodedig ar gronfa ddata Coed Cymru. Y gobaith yw sefydlu prosiect ar y cyd â Chyngor Llangynfelyn i ychwanegu coed lleol at y cofnod cenedlaethol.*

*Yn yr hydref, gofynnwyd i ni ddarparu erthygl ar gyfer colofn 'Yn Naturiol'* Papur Pawb. *Yma, fe wnaethon ni restri awgrymiadau syml ac ymarferol i arddwyr ar sut i helpu'r bywyd gwyllt ar ein stepen drws i oroesi'r gaeaf, a chafwyd adborth positif iawn.*

*Mae prosiect Cae Bach wedi bod ar ei anterth drwy gydol y flwyddyn ac rydym wedi bod yn llunio Cynllun Gwella Bioamrywiaeth gyda'r nod o gynnydd o 10% yn amrywiaeth y rhywogaethau fflora a ffawna ar y safle. Rydym wedi gwneud ymholiadau ynghylch argaeledd adnoddau am ddim fel pecynnau gwrychoedd brodorol a hefyd cyllid ar gyfer prynu blychau plannu pren. Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar syniadau ac arferion da o brosiectau eraill fel Gwyrddio Aber, a byddwn yn croesawu unigolion o brosiect cymunedol tebyg yn Llanafan a hefyd arbenigwr Caru Gwenyn i Gae Bach yn fuan i ddysgu o'u profiadau a chael cyngor.*

iii) Un Llais Cymru: nodwyd nad oedd unrhyw ddiben darparu adroddiad ar y mater hwn, a phenderfynwyd ei hepgor o gyfarfod blynyddol y flwyddyun nesaf.

iv) Y Cylch Meithrin: Adroddodd y Cyng. Elgan Evans fod arweinydd newydd yn y Cylch Meithrin erbyn hyn. Roedd yna le i 19 o blant ac roedd 13 yn mynychu ar hyn o bryd. Roedd sesiynau'n cael eu cynnal rhwng 8.15am a 3.15pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal sesiynau ar ddydd Gwener hefyd. Roedd y Cylch yn bwriadu prynu adnoddau pren newydd ar gyfer yr ardal y tu allan ac am wella'r golau yn yr adeilad ei hun.

**5. Adroddiad Ariannol**

Rhoddodd y Clerc grynodeb o'r gweithgarwch ariannol ar gyfer blwyddyn 2025-26 fel a ganlyn:

| | Incwm/£ | Gwariant/£ | Mantol/£ |
|---|---|---|---|
| *Balans agoriadol ar 01.04.2025* | | | **24,359.25** |
| *Y Cyngor yn gyffredinol* | **18,648.06** | | |
| | | **28,082.58** | |
| *Cwtsh Cynnes* | **1,733.56** | | |
| | | **1,242.53** | |
| *Cae Bach* | **23,874.21** | | |
| | | **18,351.38** | |
| *Balans ar 31.03.2026* | **44,255.83** | **47,676.49** | **20,938.59** |

**Cysoniad banc**

| | **31.03.2025** | | **31.03.2026** |
|---|---|---|---|
| *Y cyfrif cyfredol* | £139.91 | | £583.38 |
| *Y cyfrif cadw* | £46.28 | | £8.67 |
| *Cyfrif Cae Bach* | £19,535.81 | | £15,630.86 |
| *Cyfrif y Tabernacl* | £4,584.18 | | £4,654.99 |
| *Arian mân* | £53.07 | | £60.69 |
| | **£24,359.25** | | **£20,938.59** |

Ar 31 Mawrth 2026, roedd £10,000 ar fenthyg yn nghyfrif cyfredol y Cyngor o Gronfa Cae Bach. Yn dilyn taliad o £13,471.67 a ddaeth i law ar 29 Ebrill 2026, sef rhan gyntaf y praesept a'r grant ar gyfer gwaith a wnaed yn y fynwent yn 2024, trosglwyddyd yr holl arian a oedd yn ddyledus yn ôl i gyfrif y Cae Bach.

*Oherwydd problemau technegol, gadawodd y Cyng. Mererid Watson y cyfarfod am 7.30pm*

**6. Ethol Cadeirydd newydd**

Cytunodd y Cyng. Enoc Jenkins i gamu i swydd y Cadeirydd a chymeradwywyd hyn yn unfrydol. Er mai Cadeirydd y Cyngor yw Cadeirydd pob is-bwyllgor fel arfer, cynigiodd y Cyng. Nia Richards fod y Cyng. Ellen ap Gwynn yn parhau yn rôl Cadeirydd Is-bwyllgor y Caeau Chwarae am ei bod wedi ymwneud ag ymgyrch Cae Bach o'r dechrau a'i bod yn gyfarwydd iawn â'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo,

ac am fod yr ymgyrch wedi cyrraedd cam tyngedfennol erbyn hyn. Cytunodd Ellen, a chymeradwywyd hyn yn unfrydol.

**7. Ethol Is-gadeirydd newydd**

Enwebwyd y Cyng. Siôn Pennant Jones ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd gan y Cyng. Ellen ap Gwynn, ac eiliwyd hyn gan bawb. Derbyniodd Siôn yr enwebiad a phasiwyd y cynnig yn unfrydol.

**8. Dewis aelodau'r is-bwyllgorau a chynrychiolwyr**

Bydd y Cadeirydd yn aelod o bob is-bwyllgor yn rhinwedd ei swydd, a phenderfynwyd penodi'r aelodau eraill fel a ganlyn:

i. **Yr is-bwyllgor cyllid:** y Cyng. Rhian Evans, Nest Jenkins ac Ellen ap Gwynn
ii. **Is-bwyllgor y fynwent:** y Cyng. Nia Richards, Bleddyn Huws, Nest Jenkins ac Elgan Evans
iii. **Yr is-bwyllgor cynllunio:** pob Cynghorydd ac eithrio'r Cynghorydd Sir
iv. **Is-bwyllgor y Caeau Chwarae**: y Cyng. Ellen ap Gwynn, Nia Richards, Catrin Davies, Mererid Watson ac Eryl Bray. Roedd Holly Aubrey, Kath Botting a Lynn Ebenezer wedi cytuno i barhau i fod yn aelodau, ac fe'u cyfetholwyd yn unol â hynny.
v. **Yr is-bwyllgor Polisïau:** pob Cynghorydd
vi. **Cynrychiolydd ar gyfer y Cylch Meithrin:** y Cyng. Elgan Evans
vii. **Cynrychiolydd ar gyfer Un Llais Cymru:** y Cyng. Rhian Evans
viii. **Swyddog Ariannol Cyfrifol:** y Clerc
ix. **Cyfrifydd Mewnol:** Nia Richards
x. **Archwilydd Mewnol:** gan fod yr archwilydd mewnol presennol wedi dweud ei fod yn bwriadu ymddeol, cynigiwyd gofyn i Mr Julian Thomas a fyddai'n barod i ymgymryd â'r gwaith ar gyfer archwiliad 2026-27.
xi. **Cynghorwyr â gofal am faterion yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth (Adran 6):** y Cyng. Nia Richards ac Eryl Bray

**9. Cymeradwyo'r Rhestr Asedau**

Roedd y Rhestr Asedau wedi cael ei chymeradwyo yn ystod cyfarfod mis Ebrill. Penderfynwyd ychwanegu'r goleuadau Nadolig at y rhestr.

**10. Cymeradwyo a Mabwysiadu Polisïau a Rheoliadau**

Roedd y dogfennau canlynol wedi cael eu dosbrthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod:

i. Y Polisi Cyfle Cyfartal
ii. Y Polisi Rhyddid Gwybodaeth
iii. Y Polisi Hyfforddiant a Datblygiad
iv. Y Polisi Diogelu Data a Gwybodaeth
v. Asesiad Risg Busnes
vi. Rheolau Sefydlog
vii. Rheoliadau Ariannol

Penderfynwyd cymeradwyo a mabwysiadu'r holl ddogfennau uchod.

**11. Dyddiadau cyfarfodydd y flwyddyn i ddod**

2026: 29 Mehefin; 27 Gorffennaf; 28 Medi; 26 Hydref; 30 Tachwedd

2027: 25 Ionawr; 22 Chwefror; 26 Ebrill

Gan fod 29 Mawrth 2027 yn Ŵyl Banc, penderfynwyd cynnal cyfarfod mis Mawrth ar y 22ain.

**12. Cyfarfod blynyddol 2027**

Cynhelir y cyfarfod blynyddol nesaf ar 24 Mai 2027, oni bai fod yn rhaid ei gynnal yn gynt oherwydd yr etholiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm.